Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3
Legislation Committee No.3

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Ymgynghoriad ar Fesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru).

Gorffennaf 2010

Annwyl Syr / Madam

Mae Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth mewn perthynas ag egwyddorion cyffredinol *Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru).*

Beth yw Mesur?

Darn o ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad yw Mesur. Mae iddo effaith debyg i Ddeddf Seneddol. Gall y Cynulliad basio Mesurau ar unrhyw 'fater' a restrir yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) yn ymwneud â materion 12.5 i 12.17, sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol.

Tra bod Mesur yn mynd drwy'r Cynulliad, fe'i gelwir yn 'Fesur arfaethedig'.

Mae pedwar cyfnod yn y broses o ystyried Mesur arfaethedig. Yn ystod Cyfnod 1, mae pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig (gan gynnwys cymryd tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan rai sydd â diddordeb a rhanddeiliaid), a chaiff y Cynulliad y cyfle i gytuno ar yr egwyddorion hynny.

Beth y mae'r Mesur arfaethedig hwn yn ceisio'i gyflawni?

Dyma ddarpariaethau allweddol y Mesur arfaethedig:

> "(i) ehangu a chynyddu cyfranogiad mewn llywodraeth leol drwy ganiatáu camau a fydd yn helpu i gael gwared ar rwystrau ac anghymelliadau i sefyll mewn etholiad ar gyfer cynghorau lleol (*Adrannau 1 a 2 y Mesur arfaethedig*);

Swyddfa Ddeddfwriaeth
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Legislation Office
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 02920 898408
E-bost / Email: legislationoffice@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

(ii) galluogi'r broses o adolygu a gwella'r strwythurau llywodraethu a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2000 fel eu bod yn gweddu'n well at amgylchiadau llywodraeth leol yng Nghymru'n well (*Adrannau 3 a 4*);

(iii) datblygu rôl cynghorwyr awdurdodau lleol anweithredol ("mainc gefn") wrth graffu ar wasanaethau lleol (*Adrannau 5 a 6*);

(iv) datblygu a chryfhau rôl y cynghorau cymunedol yng Nghymru, gan gynnwys eu galluogi i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau a gweithrediadau yn lleol, yn ogystal â chynyddu effeithiolrwydd eu rôl yn cynrychioli'r gymuned a'u gallu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill (*Adran 7*);

(v) diwygio'r system ar gyfer pennu lwfansau i gynghorwyr (*Adran 8*);

(vi) caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi arweiniad statudol ar gydweithredu rhwng awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill (*Adran 9*)".

Beth yw rôl y Pwyllgor?

Rôl Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyflwyno adroddiad arnynt. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i weithio o fewn y fframwaith a ganlyn wrth wneud hyn:

Ystyried:

i) yr angen am Fesur arfaethedig i gyflawni'r amcanion a bennwyd, sef cryfhau strwythurau a gwaith llywodraeth leol yng Nghymru ar bob lefel a sicrhau bod cynghorau lleol yn estyn allan ac yn ymgysylltu â phob sector yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu;

ii) a yw'r Mesur arfaethedig yn bodloni'i amcanion penodol;

Iii) y darpariaethau allweddol a amlinellir yn y Mesur arfaethedig, ac a ydynt yn briodol i gyflawni'i amcanion;

iv) y rhwystrau posibl i weithredu'r darpariaethau allweddol ac a yw'r Mesur arfaethedig yn ystyried y rhwystrau hyn;

v) safbwynt y rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio gyda'r trefniadau newydd.

Sut y gallwch chi helpu – cwestiynau'r ymgynghoriad

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-localgov.htm

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo yn y gwaith o graffu ar y Mesur arfaethedig. Yn benodol, byddem yn croesawu'ch barn ar y cwestiynau a restrir yn Atodiad 1.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyfraniad i legislationoffice@wales.gov.uk gyda'r pennawd *Ymgynghoriad – Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol*.

Neu, gallwch ysgrifennu at:
Carys Jones, Clerc y Pwyllgor, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad erbyn 17 Rhagfyr 2010 fan bellaf. Er mwyn rhoi digon o amser i ni ddadansoddi ymatebion ysgrifenedig a chlywed tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref, bydd ein hymgynghoriad ar agor am 11 wythnos. **Dylid anfon tystiolaeth erbyn 1 Hydref 2010. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.**

I gael rhagor o wybodaeth am y **broses ddeddfu**, ewch i:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-measures.htm

Wrth baratoi'ch ymateb, dylech ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- dylai'ch sylwadau fynd i'r afael â'r materion sydd gerbron y Pwyllgor. Defnyddiwch y pennawd uchod fel cyfeirnod i'ch sylwadau;

- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn sicrhau bod atebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt, ac mae'n bosibl y bydd Aelodau'r Cynulliad hefyd yn eu gweld ac yn eu trafod yn ystod cyfarfodydd pwyllgor. **Os nad ydych am i'ch ymateb neu'ch enw gael eu cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir wrth gyflwyno'ch tystiolaeth.** Yn yr achosion hyn, fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol na fydd y Pwyllgor, o bosibl, yn rhoi cymaint o bwys ar y dystiolaeth wrth ei thrafod. Dylech hefyd fod yn ymwybodol y gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r wybodaeth yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth am gwmni, a hynny yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Hefyd:
- nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad, neu unigolyn, a rhowch esboniad bras o'ch maes arbenigol; a

- rhowch grynodeb o brif bwyntiau'ch cyfraniad.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd yn ystyried yn ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn ystod tymor yr haf.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Carys Jones, Clerc y Pwyllgor ar 029 2089 8598.

Yn gywir,



Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Atodiad 1

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3

Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

1. A oes angen Mesur arfaethedig i gyflawni'r amcanion a bennwyd, sef cryfhau strwythurau a gwaith llywodraeth leol yng Nghymru ar bob lefel a sicrhau bod cynghorau lleol yn estyn allan ac yn ymgysylltu â phob sector yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu?

2. Sut y bydd y Mesur arfaethedig yn newid beth mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd, a beth fydd effaith newidiadau o'r fath?

3. A yw adrannau'r Mesur arfaethedig yn briodol o ran cyflawni'r amcanion a bennwyd?

Yn benodol, wrth ystyried y cwestiwn hwn, mae'r Pwyllgor am glywed eich barn ar y pynciau a ganlyn:

(i) **ehangu a chynyddu cyfranogiad mewn llywodraeth leol** drwy ganiatáu camau a fydd yn helpu i gael gwared ar rwystrau ac anghymelliadau i sefyll mewn etholiad ar gyfer cynghorau lleol (*Adrannau 1 a 2 y Mesur arfaethedig*);

(ii) **galluogi'r broses o adolygu a gwella'r strwythurau llywodraethu** a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2000 fel eu bod yn gweddu'n well at amgylchiadau llywodraeth leol yng Nghymru (*Adrannau 3 a 4*);

(iii) **datblygu rôl cynghorwyr awdurdodau lleol anweithredol** ("mainc gefn") wrth graffu ar wasanaethau lleol (*Adrannau 5 a 6*);

(iv) **datblygu a chryfhau rôl y cynghorau cymunedol** yng Nghymru, gan gynnwys eu galluogi i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau a gweithrediadau yn lleol, yn ogystal â chynyddu effeithiolrwydd eu rôl yn cynrychioli'r gymuned a'u gallu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill (*Adran 7*);

(v) **diwygio'r system ar gyfer pennu lwfansau** i gynghorwyr (*Adran 8*);

(vi) caniatáu i Weinidogion Cymru **gyhoeddi arweiniad statudol ar gydweithredu** rhwng awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill (*Adran 9*).

4. Beth yw'r rhwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Mesur arfaethedig (os o gwbl), ac a yw'r Mesur arfaethedig yn ystyried y rhwystrau hyn?

5. Beth fydd goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig i sefydliadau, os o gwbl? Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai y byddwch am ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n amcangyfrif cost a budd rhoi'r Mesur arfaethedig ar waith.

6. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar adrannau penodol o'r Mesur arfaethedig?